

# GWYDDONIAETH

Mae gwyddoniaeth o'n cwmpas ni bob dydd, o fudiant ceir, y meddyginiaethau y cymerwn, i siarad gyda Siri ar ein ffonau.

Wrth i dechnoleg ddatblygu yn y maes hwn, gallech weithio mewn deallusrwydd artiffisial a gyda robotiaid, hyd yn oed! Dysgwch am y llwybrau gyrfaedd yn y sector hwn:

## Gwyddor Fforensig

Ymchwilio i safleoedd trosedd byw a chynorthwyo'r heddlu, ditectifs a'r llysoedd i ymchwilio i'r drosedd. Byddwch yn rhoi sylw agos at fanylion, yn amyneddgar ac yn meddu ar ddull gweithredu proffesiynol at waith.

## Peirianeg Roboteg (Mecatroneg)

Adeiladwch robotiaid y dyfodol. Byddwch yn ymchwilio i robotiaid, eu dylunio a'u hadeiladu nhw yn ogystal â'r systemau cyfrifiaduron y defnyddiant ar gyfer adborth a phrosesu gwybodaeth. Maes cyffrous ac arloesol sy'n datblygu'n barhaus.

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Gelwir hefyd yn ddeallusrwydd peiriannau, byddwch yn gweithio gyda chymwysiadau sy'n dynwared ymddygiadau gwybyddol dynol. A hwnnw eisoes yn bwnc llosg yn y newyddion, e.e. ceir heb yrrwyr a botiau

sgwrsio gwe, arhoswch yn rheng flaen y maes a dilynwch yrfa yn y diwydiant hwn.

## Gwyddor Fiofeddygol

Gan ddefnyddio'ch gwybodaeth ddofn o fioleg ac anatomi, byddwch yn cynghori meddygon a gweithwyr meddygol proffesiynol ar sut i roi diagnosis a thrin afiechydon. Gan brofi samplau o waed a meinweoedd, byddwch yn gweithio mewn labordai naill ai yn y diwydiant neu'r GIG, un o gyflogwr mwyaf y DU.

## Microbioleg

Y datrysyr problemau ym meysydd megis meddygaeth, amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, mae microbiolegwyr yn archwilio microbau a'u heffeithiau. Byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth i awgrymu datrysiadau i helpu i gadw ein hamgylchedd ac amddiffyn iechyd cyhoeddus.

## Dolenni Defnyddiol

[www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)  
Gwefannau Gyrfa Cymru  
[www.stem.org.uk](http://www.stem.org.uk)  
Gwefan STEM (dysgu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg)



DIM OND  
**1/5**  
O FYFYRWYR  
FFISEG  
LEFEL A SY'N  
FERCHED

BYDD 1  
MEWN 5  
SWYDD  
NEWYDD

YN Y DU  
ERBYN 2022 YN  
GOFYN SGILIAU  
GWYDDONIAETH



MAE 72% O HOLL FUSNESAU Y DU YN DIBYNNU  
AR BOBL SYDD Â SGILIAU GWYDDONIAETH.

ERBYN 2022, BYDD ANGEN 4,500 O  
WYDDONWYR AR GYMRU

**£** Y CYFLOG CYCHWYNNOL AR  
GYFARTALEDD I RADDEDIGION YW  
**£21,702** Y FLWYDDYN!

(ffynhonnell Gyrfa Cymru)

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	BG	C	DC	T
Gwyddoniaeth Gymhwysol - Lefel 2	1 Flwyddyn			✓	
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd		✓	✓	✓
Gwyddoniaeth Ddadansoddol a Fforensig	1 Flwyddyn				✓
Troseddeg - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓		

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [admissions@coleggwent.ac.uk](mailto:admissions@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

